# Cofnodion Cyfarfod 6ed Hydref, 2022

Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw *(Clerc)*.

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau Siôn McGuinness.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/9/22, gan nodi fod yr Is-bwyllgor bioamrywiaeth wedi cyfarfod.
4. **Materion y Clerc:** *yn cynnwys*

   i. (4ii) Meinciau Cysgod y Coleg: mae John Caradog Williams wedi gofyn i saer lleol wneud y gwaith.

   ii. (12i) Facebook: Adroddodd y Clerc ei bod wedi holi Cyngor sydd wedi creu tudalen ac roedd eu profiad nhw wedi bod yn un hynod o anodd; dywedodd clerc y Cyngor hwnnw ei fod yn wastraff o'i amser i hysbysebu digwyddiadau neu hysbysebion mudiadau neu sefydliadau eraill; cafwyd sylwadau annifyr yn lleol ac o bell; roedd hyn wedi arwain at begynnu barn. Cynigwyd creu polisi cyfathrebu ac anfonir copi o bolisi Cyfryngau Cymdeithasol wedi ei baratoi gan Un Llais Cymru at aelodau er gwybodaeth. Nodwyd nad yw cynnal tudalen fb yn rhan o swydd ddisgrifiad y Clerc ac nid rôl y Cyngor yw bod yn "arwyddbost" i eraill. Trafodwyd gyda Phartneriaeth Penllyn a ddywedodd bod nifer o gyfrifon cymunedol ar gael yn Y Bala y gall Cynghorau Penllyn eu defnyddio os dymunant.

   iii. (12iv) Problemau baw cŵn: ymwelodd y warden baw cŵn i nodi safleoedd lle mae angen biniau ac arwyddion. Diolchwyd yn gynnes iawn i John Caradog Williams am ei dywys ar fyr rybudd ar hyd y llwybrau .

   iv. (12v)NMWTRA: Ni dderbyniwyd ymateb i gais am gau safle parcio cul i'r de o siop y Co-op.

   v. (12vi) Gordyfiant gwrych ym mhen pellaf Cysgod y Coleg: mae'r gwrych wedi ei thorri'n daclus iawn erbyn hyn, a diolchwyd eto i John Caradog Williams am ddangos y safle i swyddogion Adra.

vi. Diolchwyd i Bryn Hughes, Cyngor Gwynedd, am ymateb buan i broblemau yn adeiladau'r Cyfleusterau Cyhoeddus

vii. Rhoddodd y Maer adroddiad o gyfarfod "Ardal Ni" 27/9/22. Mae'r gwaith ymgynghori ar greu Cynllun Strategol ar gyfer Y Bala wedi cychwyn ers blwyddyn a bydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno adroddiad drafft i'r Cyngor ac i'r trigolion erbyn diwedd y flwyddyn.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Rhoddodd arweiniad ar y defnydd o apGwynedd.

   **Coed y Stryd Fawr:** Nid oedd y Cynghorydd wedi derbyn Cynllun trin y coed oddi wrth NMWTRA fel a addawyd ond roedd wedi cael gwybod y bydd gwaith yn cael ei wneud ar un goeden yr wythnos nesaf. Mae NMWTRA wedi gofyn am adroddiad ecolegol.

   **Canolfan Deulu:** Ar ôl 8 mlynedd o waith cynllunio, paratoi a strwythuro, roedd yn falch iawn o gyhoeddi y bydd y Ganolfan Deulu yn agor yn swyddogol ar 7/11/22.

   **Llwybr Diogel i'r ysgol:** Mae Cyngor Gwynedd yn dweud fod y gwaith yn mynd yn ei flaen.

   **Y Tîm Tacluso:** Maent wedi ymweld â'r dref i wneud arolwg ac fe fyddant yn holi'r Cyngor, yr ysgol a busnesau am eu hawgrymiadau.

   **Ffordd y Gerddi:** Mae'r Cynghorydd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd docio gwrych yr hen ysgol.

   **Neuadd Buddug:** Mae'r Cynghorydd wedi dweud wrth yr Adran Eiddo am beidio â rhoi'r Neuadd ar y farchnad agored ar hyn o bryd. Ei fwriad yw cynnal cyfarfod yn lleol i drafod ei ddyfodol. Mae'n croesawu unrhyw syniadau, a bydd y mater hwn ar Agenda cyfarfod Tachwedd o'r Cyngor.

6. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

   i. **Asedau:** Mae pobl yn rhoi posteri ar y llochesi bws ac maent yn edrych yn flêr. Cynigodd y Clerc ofyn i fusnesau cyfagos gadw llygad ac i bwrcasu defnydd i gadw'r gwydr yn lân.

   ii. **Bioamrywiaeth:** bydd yr is-bwyllgor yn creu Cynllun newydd yn fuan.

   iii. **Diogelwch y cyhoedd a mynediad i'r anabl:** Cafwyd adroddiad manwl gyda lluniau a nodiadau yn cyfeirio at fannau priodol yn y dref. Llongyfarchwyd yr is-bwyllgor yn fawr iawn ar eu cyflwyniad. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y gallai hyn fod yn sail i greu Tref Gyfeillgar i'r Anabl. Dywedodd ei fod wedi codi nifer o'r materion ers blwyddyn gyda NMWTRA (megis lleoliadau'r parcio anabl) ond heb gael ymateb. Cytunwyd i ysgrifennu at Merfyn Morris (NMWTRA) ac at Gyngor Gwynedd ac arweinydd Ardal Ni i

geisio cael gweithredu a grantiau. Ystyriwyd creu is-bwyllgor i wthio hwn yn ei flaen.

iv. **Nadolig:** Cytunwyd i brynu 4 garland newydd.

v. **Gwarchod y Cyhoedd:** Bydd yr is-bwyllgor yn parhau i weithio ar y Cynllun Argyfwng gan gydweithio gydag asiantaethau argyfwng a Chyngor Gwynedd. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith i'w gyflawni dros gyfnod o amser.

**vi.** **Is-bwyllgor gwella'r dref:** Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod yn fuan.

*7.* **Materion Cynllunio**:

*NP5/53/LB75Q a NP5/53/LB75R* Ceisiadau gyda manylion diwygiedig Banc Barclays, 68-70 Y Stryd Fawr

*Nodwyd derbyn y cais ond nid oedd yr aelodau'n gallu gweld unrhyw beth wedi ei ddiwygio o'r cais blaenorol, felly nid oedd dim i'w ychwanegu a anfonwyd ar 2/9/22.*

**8. Materion Cyllid:**

**i.** Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**ii.** Cytunwyd i dalu

**a)** Cyngor Gwynedd: Costau etholiad Mai 2022: £1,520.36

**b)** Un Llais Cymru Hyfforddiant £35 (talwyd 4/9/22)

c) Taliadau o dan Gytundeb: Glanhau llochesi mis Medi**;** Clerc mis Medi

**iii** Ceisiadau cymunedol am arian (Urdd Meirionnydd; Clwb pêl droed ieuenctid; Clwb Hoci) – cytunwyd i'w hystyried gyda gweddill ceisiadau cymunedol yn Chwefror.

**9. Gohebiaeth:**

**i.** Ystyriwyd llythyr parthed wal gynnal wrth ystâd Glannau Tegid a chytunwyd i anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru i fynegi bod y Cyngor yn cytuno a'r farn hon.

**ii.** Cyngor Gwynedd: Nodwyd derbyn cais am estyniad cau dros dro Llwybrau 1,4 a 5 am 6 mis arall.

**iii.** Ystyriwyd cais am ymateb i drefniadau Triathlon 2022; nodwyd fod parcio ar strydoedd ochr yn broblem a gofynnwyd am osod conau i rwystro hyn yn y dyfodol. Diolchwyd am y trefniadau da eleni.

**iv.** Ystyriwyd llythyr yn mynegi pryder am gerflun Tom Ellis a gordyfiant y goeden. Cytunwyd i anfon at NMWTRA am y pryderon.

**v.** Dwr Cymru: derbyniwyd gwahoddiad i gyflwyniad parthed cynlluniau argae Llyn Celyn. Cytunodd John Caradog Williams a Tony Parry i fynychu.

**vi.** Un Llais Cymru:

**a)** gwahoddwyd y Cynghorwyr i fynegi eu dymuniadau ar gyfer hyfforddiant erbyn mis nesaf, er mwyn i'r Cyngor allu lunio Cynllun.

**b)** Derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru bod angen statudol i'r cyhoedd allu cysylltu gyda Chynghorwyr yn unigol a bod y manylion cyswllt hyn yn weladwy ar y wefan. Cytunodd Eifion Roberts i edrych mewn i brynu *domain* i'r Cyngor.

vii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am gau Heol y Domen 24/10/22.

viii. Derbyniwyd gyda diolch adroddiad Andy Basford ar brosiect Llyn Tegid.

ix. Parc Cenedlaethol Eryri: Trafodwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus: Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain. Rhoddwyd flas ar gynnwys y ddogfen. Tynnwyd sylw at oblygiadau Erthygl 4. Cytunwyd i lunio ymateb y Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

x. NMWTRA: Derbyniwyd ymgynghoriad parthed 20mya mewn mannau priodol ar y cefnffyrdd yng Ngwynedd.

xi. Un Llais Cymru: Nodwyd derbyn gwybodaeth am gynhadledd "Adeiladu lleoedd cydnerth ar gyfer natur" a gynhelir ar 27/10/22

xii. Un Llais Cymru – Nodwyd derbyn gwybodaeth am gynhadledd i glercod a chynghorwyr ar lein (9/11/22).

xiii. Cymdeithas Gymunedol Y Bala a Phenllyn - diolchwyd i Gareth Moon am wybodaeth am ddarparu cinio poeth am ddim yn y Pafiliwn. Datganodd y Maer ei gefnogaeth ef a chefnogaeth y Cyngor i'r gwaith hwn.

xiv. Cytunwyd i anfon y cynnig o gymorth i greu parc sglefrio at y grŵp sy'n casglu arian i hyn ac at Steffan Prys Roberts.

**10. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae Canolfan Henblas yn llawn. Cafwyd ymweliad â Bethesda a gweld gwaith ardderchog yno.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref –** derbyniwyd gwybodaeth am lygod mawr yn y dref. Awgrymwyd defnyddio apGwynedd i adrodd am y broblem.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3/11/22



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)